ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

7fed o Fawrth

Annwyl Riant/Gwarcheidwaid,

Apêl Wcrain

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, bu pawb yn ymwybodol o'r sefyllfa echrydus a thorcalonnus sy'n wynebu pobl yn yr Wcrain. Fel cymuned yr ysgol (ac ysgolion ar draws Abertawe), rydym yn awyddus i ddangos ein cefnogaeth trwy godi arian at yr apêl ddyngarol er mwyn cefnogi a chynorthwyo'r rheiny sydd wedi cael eu heffeithio gan y digwyddiadau hyn.

Yn dilyn trafodaethau gydag ysgolion ar draws Abertawe, rydym wedi penderfynu cynnal diwrnod gwisg anffurfiol er mwyn codi arian. Bydd croeso i ddisgyblion wisgo glas a/neu felyn i ddangos eu cefnogaeth i'r achos os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd y diwrnod yma yn cael ei gynnal ar **ddydd Iau, Mawrth 10fed**. Gofynnwn yn garedig i ddisgyblion gyfrannu £1 yr un er mwyn cefnogi'r achos (50c os oes brawd neu chwaer yn yr ysgol). Bydd unrhyw arian a godir yn mynd yn uniongyrchol i'r apêl gan y Pwyllgor Trychinebau ac Argyfwng (Disaster and Emergency Committee) drwy law'r elusen Y Groes Goch (Red Cross).

Os ydych am wneud cyfraniad uniongyrchol, mae croeso i chi ymweld â'r wefan https://www.dec.org.uk/

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi ein hapêl a diolch unwaith eto i chi am eich cefnogaeth gyson i'r ysgol.

Yn ddiffuant,

Mr Chris Shaw (Pennaeth Cynorthwyol ar ran y Cyngor Ysgol)

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol